**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

13 Rhagfyr 2016

Annwyl Bethan

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2016 ynghylch y Rheoliadau Safonau'r Gymraeg arfaethedig. Gwnaethom ystyried y llythyr yn ein cyfarfod ar 28 Tachwedd 2016.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd ein Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad adroddiad rhagoriaethau ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 ar y sail eu bod yn codi materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus a fyddai'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Cafodd y rheoliadau hyn, a oedd yn ymwneud â'r sector addysg uwch, eu gwrthod gan y Cynulliad yn ddiweddarach.

Gan fod disgwyl i'r rheoliadau arfaethedig ymwneud â'r un maes polisi mae'n debygol y byddwn ni hefyd yn cyhoeddi adroddiad rhagoriaethau o gofio'u cefndir. Gan fod ein cylch gwaith wedi'i gyfyngu rhywfaint gan ofynion y Rheolau Sefydlog, byddai gwaith craffu manwl ar y polisi sy'n ymwneud â'r rheoliadau hyn yn cael ei wneud orau, maen'n debyg, gan eich Pwyllgor chi.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddwn yn parhau i'ch hysbysu am hynt y gwaith craffu a wnawn ni ar y rheoliadau.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.